**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our Ref

Delyth Jewell AS
Cadeirydd Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a
a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru

05 Chwefror 2025

Annwyl Delyth,

Yn dilyn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad) ('y Bil') ar 2 Ionawr, rwy'n atodi copi o'n hasesiad wedi'i ddiweddaru mewn perthynas ag unrhyw effaith bosibl y Bil ar y Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA). Byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn at bob un o'r Pwyllgorau y cyfeiriwyd yr LCM atynt.

Gwnaeth y Prif Weinidog blaenorol ymrwymiad ynghylch rhannu asesiadau o effaith Biliau Llywodraeth y DU ar y TCA ym mis Ionawr 2024, wrth ymateb i argymhellion y Pwyllgor yn ymwneud ag Adroddiad Blynyddol Cysylltiadau Rhyngwladol 2022-23. Dywedodd yr ymrwymiad y *dylai 'nodau Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Filiau sy'n effeithio ar Gytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE nodi ein hasesiad o effaith o'r fath'.*

Hoffwn egluro sut yr wyf yn bwriadu cyflawni'r ymrwymiad. Y TCA yw cytundeb masnach pwysicaf y DU ac o'r herwydd, mae Llywodraeth Cymru bob amser yn ystyried sut y gallai deddfwriaeth ddrafft effeithio ar ein rhwymedigaethau rhyngwladol presennol. Ni fydd llawer o Filiau Llywodraeth y DU yn cael unrhyw effaith adnabyddadwy ar y TCA, nac ar unrhyw un o'n rhwymedigaethau rhyngwladol. Yn yr achosion hyn, ni fyddem yn darparu asesiad i'r Senedd. Pan fo Bil yn cael effaith glir ar y rhwymedigaethau a wnaed yn y TCA, dim ond mewn perthynas â'r darpariaethau y gofynnir i'r Senedd gydsynio iddynt y bydd asesiad yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor. Byddai cynnwys y darpariaethau nad ydynt yn ymwneud â materion datganoledig mewn asesiadau technegol o Filiau yn rhoi baich afresymol ar dimau Llywodraeth Cymru ac yn dyblygu gwaith y bydd Llywodraeth y DU eisoes wedi'i wneud. Bydd asesiadau yn parhau i gael eu darparu yn ysgrifenedig, fel dogfen ar wahân i'r LCM ei hun.

Mewn achosion lle mae fy swyddogion yn pryderu bod polisi Llywodraeth y DU yn anghydnaws â'r TCA, byddwn yn parhau i godi'r pryderon hyn yn uniongyrchol gyda



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, mater i Lywodraeth y DU yn y pen draw yw sicrhau ei bod wedi cyflawni ei diwydrwydd dyladwy ei hun a'i bod yn cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau rhyngwladol.

Hyderaf fod y dull gweithredu hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar y Pwyllgor.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

Copi at: Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

**Atodiad 1 - Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a'r Bil Data (Defnydd a Mynediad) – Dadansoddiad**

**A fydd y Bil yn effeithio ar gydymffurfiad y DU â’r darpariaethau diogelu data yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu?**

1. Ein barn ni yw na fydd Bil Data (Defnydd a Mynediad) y DU ('y Bil'), yn cael effaith uniongyrchol ar gydymffurfiad y DU â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA), sy'n Gytundeb Masnach Rydd (FTA) rhwng y DU a'r UE.

2. Ein barn ni yw nad yw'r newidiadau i fframwaith diogelu data'r DU a gynigir gan y Bil fel y'i drafftiwyd yn debygol o effeithio ar gydymffurfiad y DU â TCA, gan fod ei ddarpariaethau diogelu data yn eang ac ar lefel uchel ar y cyfan, ac eithrio rheolau ar drosglwyddo data sy'n ymwneud â materion cyfraith a gorfodi, sy'n fwy penodol.

3. Fodd bynnag, fel yn achos Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (DPDI) blaenorol Llywodraeth y DU (a fethodd ar ôl diddymu'r Senedd), rydym yn pryderu y gallai'r Bil hwn nodi dechrau ymwahaniad y DU oddi wrth y drefn diogelu data sydd ar waith ar hyn o bryd ledled yr UE drwy wanhau'r diogelwch a ddarperir gan ddeddfwriaeth y DU a nodir yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018. Mae potensial gan wahaniaethau rheoleiddiol dros y tymor canolig i'r tymor hir i danseilio darpariaethau diogelu data'r TCA ar draws ystod eang o feysydd polisi, gan gynnwys masnach ddigidol sy'n hanfodol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a busnesau preifat, a'r gyfraith a gorfodi.

**Pam y gallai ymwahaniad y DU oddi wrth drefn diogelu data'r UE danseilio'r TCA?**

4. Mae penderfyniadau digonolrwydd data[1] a wneir gan yr UE ynghylch y DU yn cadarnhau bod gan y DU yr un lefel o ddiogelwch ar gyfer data personol â'r UE, sy'n galluogi data personol i lifo'n rhydd rhwng yr UE a'r DU, gan gefnogi gwasanaethau cyhoeddus a busnesau preifat. Mae penderfyniadau digonolrwydd y DU hefyd yn helpu i hwyluso'r broses o weithredu'r TCA sy'n cynnwys ymrwymiad gan yr UE a'r DU i gynnal lefelau uchel o safonau diogelu data.

5. Ein barn ni yw bod nifer o ddarpariaethau yn y Bil hwn a allai o bosibl danseilio'r fframwaith diogelu data presennol, ac felly gallant fygwth penderfyniadau digonolrwydd perthnasol.

6. Mae'r pryderon allweddol yn ymwneud â:

   - darpariaethau a fydd yn gwanhau hawliau gwrthrych data, megis gwanhau amddiffyniadau ynghylch gwneud penderfyniadau awtomataidd;
   - ychwanegu dyletswyddau i'r Comisiynydd Gwybodaeth a allai effeithio ar y gofyniad am annibyniaeth lwyr y Comisiynydd, yn rhydd o ddylanwad allanol uniongyrchol neu anuniongyrchol;
   - y gwahanol safon o drin trosglwyddiadau data rhyngwladol o'i gymharu â'r UE, a allai rhwystro digonolrwydd pe bai'r mater hwn yn achos o ymgyfreitha; a
   - bod cyfanswm pwerau deddfu'r Ysgrifennydd Gwladol yn arwain at lefel uchel o reolaeth ynghylch diogelu data gyda mesurau diogelu cyfyngedig.

[1] Digonolrwydd | ICO – Gwefan Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth y DU

7. Mae'r posibilrwydd o golli digonolrwydd data'r UE yn bryder allweddol o safbwynt masnach. Byddai hyn yn fygythiad mawr i fusnesau sy'n allforio o Gymru y mae eu prif farchnad dramor yn parhau i fod yr UE, ac sy'n dibynnu ar allu trosglwyddo data'n esmwyth gyda'r UE, yn enwedig cwmnïau rhyngwladol gyda rhiant-gwmni neu chwaer gwmni wedi'i leoli yng ngwledydd yr UE. Pe bai'r DU yn colli ei statws digonolrwydd data, byddai gweithredu'r mesurau diogelu sy'n ofynnol gan yr UE yn golygu gofynion gweinyddol ac adrodd ychwanegol i fusnesau, gan y byddai'n ofynnol iddynt hwythau gynnal gweithgareddau cydymffurfio ychwanegol, a allai fod yn gostus.

8. O safbwynt ehangach, gallai colli digonolrwydd data hefyd effeithio ar ddarparu'r gwasanaethau cyhoeddus hynny sy'n dibynnu ar lif data personol o'r UE, er enghraifft mewn addysg a llywodraeth leol. Mae'r risgiau hyd yn oed yn fwy arwyddocaol ym maes iechyd, gyda cholli digonolrwydd data yn effeithio ar GIG Cymru ac effeithio ar agweddau ar ein cydweithredu â'r UE ar iechyd.

9. Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi sicrwydd nad yw'n gweld y Bil fel bygythiad i'r cytundeb digonolrwydd. Fodd bynnag, nid oes gennym unrhyw dystiolaeth i brofi nac i wrthbrofi hyn. Mae Gweinidogion Cymru wedi gofyn i Lywodraeth y DU rannu copi o'i hasesiad risg ar y mater hwn, ond nid ydym wedi'i gael. Bydd swyddogion hefyd yn parhau i ofyn am sicrwydd gan Lywodraeth y DU ar y mater hwn.

10. Bydd swyddogion yn parhau i fonitro effaith bosibl y Bil ar ddigonolrwydd data'r UE a'r TCA wrth iddo barhau â'i daith drwy'r Senedd.